



## DISGRIFIAD SWYDD

<b>Teitl:</b>	<b>Aelod o Fwrdd Ymgynghorol Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</b>
<b>Math o ofynion:</b>	<b>Mynychu hyd at dri chyfarfod y flwyddyn</b>
<b>Telerau:</b>	<b>Telir costau teithio a chynhaliath a thâl mynychu</b>
<b>Adrodd i:</b>	<b>Rheon Tomos, Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol</b>

## PRIF BWRPAS Y SWYDD

### Y Cefndir

Prif nod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a sefydlwyd yn Awst 2016 yw denu dysgwyr newydd a chynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am gynllunio a monitro pob agwedd ar faes dysgu Cymraeg i Oedolion – gan gynnwys datblygu cwricwlwm ac adnoddau newydd, sicrhau cynlluniau marchnata cenedlaethol a hwyluso dysgu'r Gymraeg yn y gymuned a'r gweithle. Mae'r Ganolfan yn cyllido un ar ddeg o ddarparwyr trwy Gymru sy'n cyflogi tiwtoriaid ac yn trefnu dosbarthiadau ar bob lefel. Mae gan y Ganolfan berthynas agos â'i ddarparwyr sy'n cynnwys gosod targedau blynyddol a monitro eu perfformiad.

Mae'r Ganolfan yn gweithredu fel corff hyd braich oddi wrth Lywodraeth Cymru, sy'n ei hariannu. Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant enillodd y tendr agored i sefydlu'r Ganolfan, sydd â'i phencadlys yng Nghaerfyrddin - mae presenoldeb gan y Ganolfan mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

Sefydlwyd Bwrdd Ymgynghorol i gynghori'r Ganolfan a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ym mis Mai 2016. Mae'n cyfarfod hyd at dair gwaith y flwyddyn. Mae cyfnod rhai o aelodau presennol y Bwrdd yn dod i ben felly rydym yn chwilio am fwy o aelodau i weithio gyda ein Cadeirydd newydd, Rheon Tomos. Croesewir yn arbennig geisiadau gan unigolion sydd eisiau cefnogi darpariaeth ddysgu Cymraeg i oedolion, sydd wedi dysgu'r Gymraeg, neu sy'n gallu cynghori ar faterion yn ymwneud ag ansawdd corfforaethol.

Mae'r Bwrdd yn atebol yn ôl cyfansoddiad y Ganolfan i Fwrdd Cyfarwyddwyr y Ganolfan. Mae Uwch Dîm Rheoli'r Ganolfan yn darparu papurau polisi i'w hystyried gan y Bwrdd, ac mae'r meysydd trafod hyd yma wedi cynnwys cynghori ar ddata sy'n cael eu cyflwyno ar dargedau'r ddarparwyr, datblygiadau'n ymwneud â'r cwricwlwm, asesu ac adnoddau, cynlluniau Cymraeg yn y Gweithle a dulliau'r Ganolfan o gasglu adborth gan Ddysgwyr.

Aelodau Uwch Dîm Rheoli'r Ganolfan yw:

- Efa Gruffudd Jones – Prif Weithredwr
- Dona Lewis – Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Systemau
- Helen Prosser – Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu
- Hannah Thomas – Cyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu

## **Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Yn ôl cyfansoddiad y Ganolfan, Swyddogaeth Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yw cynghori swyddogion y Ganolfan am sut y gellid:

- cyflawni ei hamcanion strategol o ran maes Cymraeg i oedolion drwy weddnewid y ddarpariaeth i ddysgwyr;
- cyflenwi gwasanaethau i faes Cymraeg i oedolion yn unol â'r weledigaeth a blaenoriaethau a gyflwynwyd yn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru;
- cytuno ar dargedau cenedlaethol ar gyfer y maes;
- ail-gyflunio'r ddarpariaeth;
- gwella ansawdd y ddarpariaeth;
- denu mwy o bobl i ddysgu'r Gymraeg;
- mynnu perfformiad o'r safon uchaf bosibl gan ddarparwyr;
- gwella ymagweddau dysgu yn y meysydd blaenoriaeth;
- cyflwyno cwricwlwm fydd yn sbarduno cynnydd buan ymhlith dysgwyr;
- cyflwyno dulliau asesu ac achredu hylaw, perthnasol a deniadol;
- cefnogi dysgwyr y Gymraeg i gymryd rhan mewn gweithgarwch hamdden, diwylliannol a chymunedol drwy gyfrwng y Gymraeg;
- creu perthynas iach â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ym maes Cymraeg i oedolion.

Bydd y Bwrdd Ymgynghorol yn cynnwys rhai sy'n hyddysg ym maes cyflwyno iaith, trefnu darpariaeth ar gyfer dysgwyr y Gymraeg neu ddefnyddwyr darpariaeth Cymraeg i ddysgwyr:

- Cadeirydd annibynnol sy'n hyddysg ym maes addysg gymunedol a chyflwyno'r Gymraeg;
- Aelodau annibynnol sy'n cynnig profiad o feysydd perthnasol;
- Aelodau annibynnol sy'n cynrychioli llais y dysgwyr o bersbectif yr addysgu ffurfiol a'r profiadau anffurfiol;
- Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr y Ganolfan.

## **Statws corfforaethol y Ganolfan**

Cwmni cyfyngedig drwy warant yw'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Sefydli'r cwmni er mwyn diogelu buddiannau Llywodraeth Cymru a hefyd rhai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Er mwyn sefydlu a rhedeg cwmni cyfyngedig drwy warant penodir Bwrdd Cyfarwyddwyr.

## **Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Bydd agweddau cyfansoddiadol a chorfforaethol Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn gyfrifoldeb i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fydd yn sicrhau rheolaeth ariannol drylwyr, briodol a thryloyw ynghyd â rheolaeth risg gadarn a chyson. Bydd Bwrdd Cyfarwyddwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn sicrhau perfformiad yn erbyn prif ddangosyddion perfformiad corfforaethol y Cwmni. Mae'r Bwrdd Ymgynghorol yn cynghori Bwrdd Cyfarwyddwyr y Cwmni.

## **Atebolrwydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol**

Drwy ei Phrif Weithredwr y bydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn atebol i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ac mae gwaith y Ganolfan yn cael ei archwilio gan Bwyllgor Craffu annibynnol a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Bydd y Prif Weithredwr yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol am weithrediad corfforaethol y Ganolfan.

## Y Swydd

Gwahoddir ceisiadau i fod yn aelod o'r **Bwrdd Ymgynghorol**. Gall fod gan yr aelodau a benodir drwy'r drefn ymgeisio fod yn rhai sydd â gwybodaeth am y system dysgu Cymraeg naill ai drwy:

- ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle;
- dysgu Cymraeg drwy ddulliau e ddysgu;
- drwy gyrsiau Cymraeg i'r Teulu neu / a cyrsiau Cymraeg eraill;
- gweithgarwch hamdden, diwylliannol neu gymunedol;
- neu feysydd eraill perthnasol.

Rydym yn chwilio am unigolion sydd â gwir diddordeb mewn dysgu Cymraeg i Oedolion. Byddwch yn awyddus i wneud gwahaniaeth o ran profiad y dysgwr a gweld mwy yn dod yn rhugl a defnyddio eu Cymraeg yn eu bywydau pob dydd. Felly byddwch am ddylanwadu ar y penderfyniadau a gymerir i ddatblygu cyfeiriad strategol y maes a'r ffordd mae cyrsiau yn cael eu darparu. Gall fod gennych ddi-ddordeb mewn dulliau dysgu, asesu ac achredu a'r gallu i fesur perfformiad a phennu ansawdd. Byddwch hefyd yn gallu cyfrannu at gyfarfodydd a fydd yn cael eu cynnal gan fwyaf yn Gymraeg.

<b>Telerau ac Amodau</b>	
<b>Tâl mynychu</b>	£150 (yn cynnwys TAW) y cyfarfod (dylid anfon anfoneb at y Ganolfan ar ôl pob cyfarfod)
<b>Costau teithio a chynhaliaeth</b>	45c y filltir os yn teithio mewn car  Costau teithio amgen - os yw cost trafndiaeth gyhoeddus yn uwch na'r gost byddech yn ei hawlio ar gyfer dod mewn car, cysylltwch i gadarnhau ymlaen llaw
<b>Taliadau</b>	Dylid dychwelyd yr anfoneb oddi fewn i 30 diwrnod i gynnal y cyfarfod  Telir yr anfoneb fel rheol o fewn 28 diwrnod o'i derbyn
<b>Dull cyfathrebu</b>	Yn electronig oni chytunir yn wahanol
<b>Amllder</b>	Hyd at 3 cyfarfod o fewn blwyddyn academaidd
<b>Lleoliad</b>	Amrywiol i'w gadarnhau
<b>Hyd aelodaeth</b>	3 blynedd o'r dyddiad penodi
<b>Ail benodi</b>	Bydd modd ail benodi am gyfnod o 3 blynedd arall

Os hoffech sgwrs anffurfiol am y swydd, mae croeso i chi gysylltu ag Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan, [efa.gruffudd.jones@dysgucymraeg.cymru](mailto:efa.gruffudd.jones@dysgucymraeg.cymru)

Er mwyn gwneud cais dylech anfon llythyr cais a cv at [efa.gruffudd.jones@dysgucymraeg.cymru](mailto:efa.gruffudd.jones@dysgucymraeg.cymru) erbyn 12.00 pm ar ddydd Gwener 11 Ionawr 2019.